# Cynllun Tymor

# i Rieni Cyfnod Sylfaen




**Dosbarthiadau**

**Blwyddyn 1 a 2:**

*Miss Manon Davies*

*Miss Fflur Davies*

Tymor yr Haf 2025

## Y Pedwar Diben

*Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.*

*Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:*


- *yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*
- *yn gyfranwyr metrus, creadigol*
- *yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus*
- *yn unigolion iach, hyderus*

*Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.*

***I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y côd isod:***

*Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich plentyn.*

## Thema: I ffwrdd â ni ar y carped hud o gwmpas y byd!




Edrychwn ymlaen i addysgu agweddau o'r Cwricwlwm Newydd tra'n mynd ar antur ar y carped hud o gwmpas y byd!

### Y Chwe Maes Dysgu:



**Iechyd a Lles:** Cawn gyfle i ddysgu am yr amrywiaeth o ddiwylliannau a geir yn y byd a thynnu sylw beth sy'n debyg ac yn wahanol i'n diwylliant ni. Edrychwn ymlaen at ddysgu am waith arbennig Masnach Deg a dysgu am daith bwyd fel siocled a bananas. Byddwn yn edrych ar gyfandir Affrica a sut mae modd i ni helpu eraill llai ffodus na ni. O ran addysg gorfforol, byddwn yn canolbwyntio ar sgiliau ffitrwydd, sgiliau pêl ac athletau'r tymor hwn. O ran sesiynau Meddwl Hapus byddwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu gydag eraill.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Byddwn yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac ymestyn sgiliau llafar y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys dysgu caneuon a chwarae rôl megis maes awyr. Bydd cryn hwyl wrth ddysgu patrymau brawddeg amrywiaeth o ieithoedd ar ein taith o gwmpas y byd yn ogystal! Byddwn yn defnyddio rhaglenni ffonolegol megis Tric a Chlic i ddatblygu eu sgiliau darllen yn ogystal â gosod tasgau i hybu uwch-sgiliau darllen rhai o'r plant.



Mae mynd i fyd dychmygol y plant yn bwysig i ni fel modd eu sbarduno i ysgrifennu'n greadigol ag yn ffeithiol, a bydd ein hymweliadau dychmygol â Ffrainc, America a Siapan yn hybu hynny. Bydd pob math o gyfleoedd i'r plant arbrofi gyda gwahanol ffurfiau er enghraifft cerdyn post, pamffled a phoster gwybodaeth.

**Mathemateg a Rhifedd:** Byddwn yn canolbwyntio ar amrywiaeth o sgiliau megis cyfrifo fesul setiau, lluosi, siapiau, cynhwysedd, amser a thymheredd. Manteisiwn ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgwricwlaidd a thrwy eu chwarae; boed hynny drwy arbrofion gyda dŵr neu'n mesur y Taj Mahal maent wedi ei greu!



**Y Celfyddydau Mynegiannol:** Bydd cyfle i'r plant defnyddio ieithoedd amrywiol pan fyddwn yn canu amryw o ganeuon rhyngwladol. Byddwn yn defnyddio offerynnau i ddilyn rhythmau gwahanol megis cerddoriaeth Affricanaidd a Ffrenig. Rhown gyfle i'r plant arbrofi'n greadigol wrth efelychu gwaith Monet a'r Lili Dŵr a chreu modelau o adeiladau Americanaidd.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg:** Byddwn yn ennyn chwilfrydedd y plant a meithrin eu sgiliau i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau megis defnyddio offer i adeiladu ceir ac ymholiad robotiaid. Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau fframwaith cymhwysedd digidol drwy gasglu data, codio a dysgu am ddiogelwch y we.

**Dyniaethau:** Edrychwn ymlaen at ddysgu ac i werthfawrogi rhyfeddodau'r byd wrth i ni fynd ar ein taith ar y carped hud. Byddwn yn edrych ar wahanol grefyddau a dathlu pob math o ddiwylliannau gwledydd megis Affrica, America a Siapan. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i addysgu yn yr awyr agored gan wneud llu o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn Ysgol y Goedwig gyda ein prif sylw yn mynd ar greaduriaid bychain.

